Question number
*Rhif y Cwestiwn*

Leave Blank
*Gadewch yn wag*

ADRAN C

Yn niwedd 2009, fues i'n ddigon lwcus i wylio 'Tyner yw'r Lleuad heno' sef perfformiad Theatr Genedlaethol Cymru o ddrama Meic Povey.

Teulu fferm Garn fach sydd yma ar brynhawn braf o Haf. Mae'r teulu wedi dod at eu gilydd i ddathlu penblwydd Prysor sef y Taid. Ond nid prynhawn arferol yw hon, daw cyfrinachau a digwyddiadau o'r gorffennol i ddifetha'r achlysur arbennig hwn.

O ran y set, roeddwn wedi dotio hefo sut cafodd y llwyfan ei osod allan. Roeddwn yn hoff o'r bêls gwair y tu allan a ddefnyddir fel seti a drwy gyfuniad a rhain a'r bwrdd picnic, roedd y ddelwedd o ardd cefn gwlad yn cael ei greu yn arbennig. Hoffais hefyd y wal oedd yn amgylchynu'r llwyfan ar y cefn. Roedd yn adeiladu ffin trosiadol a oedd yn dangos na all y teulu ddianc rhag rhai o'r problemau oedd ganddynt, a dim bwys pa mor galed roedd ynt yn ceisio dianc, roedd Garn fach a'r teulu am chwarae rhan pwysig yn eu bywydau am byth. Yn yr un modd yr oedd y tŷ gwydr yn drosiad ~~by~~ o fywyd y teulu. Ar y tu allan, roedd y tŷ gwydr yn fler a mewn cyflwr gwael, yn union fel y teulu. Hefyd, roedd mannau ohonno na ellir eu trwsio a awgrymir na fydd rhai o'r problemau teuluol am gael eu trwsio megis marwolaeth y Nain.

Yr unig rhan o'r set na hoffais oedd y darlun o 'gefn gwlad' a cafodd ei daflu ar y cefn len. Roedd yn creu awyrgylch mwy Sbaeneg na cefn gwlad Cymru a drwy cyfuno hyn gyda'r cerddoriaeth ar ddechrau'r ddrama, a oedd eto â naws Sbaeneg iddo, roedd y gynulleidfa yn derbyn yr awyrgylch hollol anghywir. Wedi dweud hyn, roedd y lliwiau yn adlewyrchu pa mor ddiflas oedd bywyd yn y wlad, a teimlaf fod hyn yn effeithiol. Hoffwn pe byddai gwell defnydd wedi ei wneud o'r set gan y cyfarwyddwr ar brydiau. Ar ddechrau'r

Question number
Rhif y Cwestiwn

Leave Blank
Gadewch yn wag

drama, fyddai wedi gosod rhai o'r cymeriadau i eistedd wedi bod yn effeithiol i ychwanegu gwahanol lefelau gan fod prif pwrpas y bwrdd picnic oedd i ddal props nad oedd mewn defnydd. teg

O ran y goleuo, teimlaf mai'r adran yma oedd fwyaf effeithiol drwy gydol y ddrama. Pan nad oedd Prysor mewn golygfa, roedd yn cael ei adael mewn tywyllwch gyda'r mymryn lleiaf o olau arno. Creodd hyn bortread gwych fod Prysor ar ei wely angau gyda'r mymryn lleiaf o fywyd dal ynddo. Yn yr un modd, pan oedd Prysor mewn golygfa, roedd ei amgylchedd mewn tywyllwch a greodd cysgod angau trosiadol yn cau amdano. Roeddwn hefyd yn hoff o'r golau cyffredin y tu allan i'r tŷ gwydr. Cafodd awyrgylch awyr agored ei greu yn arbennig ac wrth iddi dywyllu, pylodd y golau yn effeithiol i greu naws nos i'r ddrama. Hoffais hefyd y defnydd o lun lleuad ar y cefnlen wrth iddi dywyllu a dangosir lleuad llawn. Creodd hyn awgrym fod digwyddiadau anffodus am ddigwydd.

Roedd y gwisgoedd wedi eu dyfeisio yn arbennig. Roedd gwrthgyferbyniad amlwg rhwng y genhedlaeth ifanc, sef Dafydd a Mared, a'r genhedlaeth hyn, sef Prysor, Now, Elinor, Owain a Ema.

Gweler Dafydd a Mared mewn dillad lliwgar, smart a modern a oedd yn amlwg wedi ei ddylanwadu gan bywyd y ddinas. Wedyn i'r gwrthwyneb, gweler Prysor, Elinor a Now mewn dillad hollol hen ffasiwn a diwl a ddangosir dim dylanwad o'r dref o gwbl. Roedd y tri yn amlwg yn gaeth i'r gorffennol a Garn fach. Hefyd, roedd dillad Now yn hen ac yn fudur a greodd y darlun oedd ei angen i gyfleu ei fod yn fudur ac yn ddiog ac yn dipyn o slob.

Gwelais gwrthgyferbyniad rhwng gwisgoedd y genhedlaeth hyn hefyd gan fod Owain a Ema mewn dillad busnes. Gwisgai Owain siwt wen tra gwelir Ema mewn blows a sgert uchel. Er nad oeddynt mor

Question number
*Rhif y Cwestiwn*

Leave Blank
*Gadewch yn wag*

modern a ifanc a dillad Dafydd a Mared, roeddynt yn amlwg wedi ei dylanwadu gan y dref a'r busnas.

Roedd ambell ~~x~~ i enghraifft o lwyfannu a hoffais yn fawr. Roedd y modd budur a eithaf 'pervy' ~~yr~~ oedd ~~O~~ Llew yn ceisio denu Mared tuag ato yn creu hiwmor arbennig a hefyd y ffaith fod Llew yn meddwi mwy a mwy drwy gydol y ddrama. Hefyd, er nad oeddwn yn cytuno a digwyddiadau Mared a Elinor yn y mynydd, sef hoffais y dewis yn ysbryd a agwedd Elinor wedi hyn. Yr unig beth na hoffais oedd gallu Prysor i symud gymaint. O ystyried ei fod ar ei wely angau, roedd yn symud llawer armod yn fy marn i.

Credaf fod y gynulleidfa wedi mwynhau gymaint a mi gan fy mod wedi clywed llawer yn canmol wrth y bar ac yn y cyntedd wedi'r perfformiad. Er, eithaf negyddol oedd ymateb ~~yr~~ arbenigwyr ar y radio.

O'i chymharu a "Deryn Du", sef addasiad Bryn Fon o "Black bird", credaf fod y set yn "Tyner yw'r Lleuad heno," llawer gwell. Er fod set "Deryn Du" yn effeithiol, roedd yn rhy syml a ni chynigir yr un ystyrion trosiadol a wnai set "Tyner yw'r Lleuad heno". Roedd y ~~sain~~ goleuo yn y ddau cystal a'u gilydd wrth i'r defnydd cael ei wneud yn y lle iawn i greu tensiwn neu ~~creu~~ awyrgylch. Credaf ar y llaw arall fod sain "Deryn du" wedi bod yn well gan ei fod yn cyd-weithio gyda'r goleuo i greu awyrgylch.

Fel y gwelwch, ~~roedd~~ mwynheais "Tyner yw'r Lleuad heno" yn fawr gan fod Meic Povey wedi cynnig themau ~~x~~ gwahanol megis twyll, cyfrinachau a trais yn gynnil ac yn effeithiol gan greu tensiwn yn rhagorol.

35

8. Ym mis ~~Ma~~ Mawrth 2010 es i i Lundain i wylio Billy Elliot yn y Victoria Palace Theatre a chafodd ei lwyfannu ar lwyfan prosenium. Cynhyrchydd y set oedd Ian McNeil. Dw i am ei gymharu hefo Warhorse es i, i weld ym mis Mawrth hefyd ac roedd hona yn y New London Theatre a chafodd ei lwyfannu ar llwyfan gwdd. Cynhyrchydd y set oedd Rae Smith.

Yn wreiddiol ffilm oedd Billy Elliot a chafodd ei addasu yn y flwyddyn 2000 i fynd ar lwyfan. Elton John ysgrifennodd y caneuon ar ei gyfer. Cafodd ei leoli yng Ngogledd Dwyrain Lloegr yn y flwyddyn 1984-5 yn ystod streic y glowyr. Roedd angen i'r cynllunydd creu set oedd yn dangos yr ardal yn ystod yr adeg yma, felly creodd set oedd ar "trucs". Yn yr olygfa cyntaf gwelwn y clwb lleol lle roedd dosbarth bocsio a ballet yn digwydd. Un golygfa lle cafodd hwn ei ddefnyddio yn effeithiol oedd pan ymunodd Billy a'r dosbarth Ballet. Roedd y goleuadau yn lliwiau gwyn i ddangos ~~Ein~~ bod nhw yn y clwb, ~~[illegible] Billy~~ a roedd yna band byw oedd yn helpu pwysleisio y genre set 'musical', ac wrth i Billy dechrau canu dyma darnau o'r set yn symud oherwydd roeddan nhw ar "trucs", a dechreuodd y

Question number
*Rhif y Cwestiwn*

Leave Blank
*Gadewch yn wag*

goleuadau ~~[illegible]~~ hyfrydwch. Wrth i'r set symud

Set — dyma'r heddlu yn dod ymlaen ond roedd

y dosbarth dawnsio dal ar y llwyfan a

felly roedd rhaid i'r ddau grŵp ~~[illegible]~~

rhyngweithio, cafodd ei wneud mewn ffordd

dda oherwydd roedd o fel bod Billy ar un

adeg yn allan a'r adeg arall roedd o yn

mewn. Roedd defnydd o sain da yn yr

Sain — olygfa yma oherwydd roedd 'sneid' y heddlu

wedi cael ~~ei~~ meicio a felly pan oeddent

yn ei taro roedd yn adleisio mwy'r

theatr ond hyd yn oed roedd y defnydd

yn dda iawn roeddwn i'n teimlo bod

y sŵn rhy uchel a doeddwn i ddim yn

gallu clywed y band byw yn chwarae.

Golygfa effeithiol arall oedd pan roedd

Billy yn dawnsio ar ~~[illegible]~~ ben ei hun yn

y dosbarth. Symudodd y set i gyd a roedd

o y llwyfan yn dywyll. Roedd yna golau

spot ar Billy ac hefyd roedd adlewyrchiad

o'r 'glitter ball'' hefyd roedd mwg ar y llwyfan

oedd wedi creu y naws ein bod ni yn

meddwl Billy, ac yn pwysleisio bod ei ddawnsio

fo yw'r peth pwysig yn ei fywyd ar y pryd

hun oedd y peth oedd yn gwneud iddo fo

colli ei hun yn y byd.

Golygfa effeithiol iawn oedd yn cyfleu

ffantasi oedd pan roedd Billy a'i ffrind gorau

wedi gwisgo fyny fel merched. Dechreuon nhw

i ganu a roedd y goleuadau yn llachar.

Defnyddiwyd lliwiau pinc, melyn, gwyn i

gyfleu'r ffantasi a roedd y goleuadau wedi

dod o'r llawr. Hefyd roedd llen pinc gliter

wedi dod lawr. Yr unig peth yn fy marn i

wnaeth ~~[illegible]~~'difetha'r olygfa yma oedd

y ffaith bod pobl wedi gwisgo mewn dillad

mawr merched ~~yn~~ ac yn dawnsio - Cymerodd

Disgrif

Question number
*Rhif y Cwestiwn*

Leave Blank
*Gadewch yn wag*

hwn y sylw gan Billy a'i ffrind. Roedd y gwisgoedd yn effeithiol i'r cyfnod gyda pobl yn gwisgo ofarols, a'r Merched Ballet yn gwisgo gwyn yn y dosbarth ond pan roedd golygfa ffantasi roeddan nhw mewn pinc llachar.

Gwisg

Yn sym gwelwn y gwahaniaeth rhwng Billy Elliot a Warhorse. I ddechrau mae'r ddau yn genre gwahanol mae Warhorse yn ddrama a chafodd ei leoli yn Devon yn ystod y rhyfel byd cyntaf.

C.f

Roedd set Warhorse llawer mwy minimalaidd gyda dim ond rhwyg ~~ar~~ o bapur ar hyd y cefn oedd yn cynrychioli rhwyg allan o lyfr, a ffenest a drws dyna'r unig pethau oedd yna.

Yn wahanol i Billy Elliot roedd rhaid i'r actorion creu ei lleoliad gan ddefnyddio ei stans. Fel yn y golygfa cyntaf mae nhw mewn 'auction' ac mae'r pobl yn locsio ei bod nhw yn pwyso yn erbyn ffens. Roedd hwn yn effeithiol iawn. ~~Oherwydd~~ ~~roedd y set~~ Torrodd Billy Elliot a Warhorse y pedwerydd wal, ond mewn ffyrdd gwahanol, gwnaeth ~~B~~ actorion Billy Elliot siarad â'r gynulleidfa a gwneud nhw yn rhan o'r sioe ond yn Warhorse roeddan nhw'n cerdded trwy'r gynulleidfa gyda pypedau (torri'r 4ydd wal yn stei Brecht). Roedd y pypedau yn rhan mawr ohono ac roedd yna "willing suspencion of disbelief" oherwydd roedd yr actorion yn creu bywyd i'r pypedau.

Un golygfa lle cafodd hyn ei ddefnyddio yn effeithiol oedd yn y rhyfel lle roedd y goleuadau yn ~~...~~ pol iawn ~~a ...~~ ond roedd rhai yn fflachio, roedd y cymeriadau

Question number
*Rhif y Cwestiwn*

Leave Blank
*Gadewch yn wag*

yn symud yn araf iawn a roedd y capten wedi cael ei daflu i ffwrdd o'r ceffyl.

* golau yn llai llachar o'i gymharu a Billy.
* Grwp yn canu a'r ddechrau y perfformiad ond dim am bywyd fel Billy ond cân gwerin o Devon.
* Gwisgoedd tywyll budr i fynd hefo'r cyfnod, gwisgoedd armi.
* Defnydd o sain da, synau gynnau yn y rhyfel.
* Cyd-deimlo hefo Albert pan mae'n colli ei geffyl.
* Synau pypedau effeithiol.

32

Barn bersonol –

Cynulleidfa?

Question number
*Rhif y Cwestiwn*

Leave Blank
*Gadewch yn wag*

Adran C (Adolygiad)

(8) Ar y 18fed o Fai, 2010 ~~fe~~ eshi i weld perfformiad o'r ddrama "Llwyth". Cafodd ei ysgrifennu gan Dafydd James a'i pherfformio gan cwmni theatr Sherman Cymru. Eshi i theatr Clwyd, Wyddgrug i weld y ddrama. Roedd y ddrama yn comedi dywyll. un act ac am fod y cwmni yn un proffesiynol llwyddon i perfformio'r ddrama yn llwyddiannus heb unrhyw ~~trafferth~~.
Roedd y drama wedi ei osod ar llwyfan agored gyda'r cynulleidfa yn cynrychioli y pedwerydd wal fel oedd syniadau Stanislavski. Er mwyn creu awyrgylch roedden nhw wedi defnyddio peiriant niwl cyn i'r cynulleidfa dod i fewn ~~i~~. & Roedd y set yn un sefydlog ac eithaf ~~minimalistaidd~~ naturiolaidd. Roedd tri lefel iddo set y llawr wedyn lefel gwydig yn uwch a oedd yn symbol o palas ac wedyn grisiau yn dilyn at y lefel uchaf. Defnyddion y lefelau yma yn gyson i ddangos status a pwer rhwng y cymeriadau. Roedd tri allanfa a oedd yn cael ei defnyddio yn effeithiol hefyd. Nid oedd y dyluniad llwyfan ar gyfer llwyth fel perfformiad theatr arad goch o Tafliad Carreg o gwbl. ~~Er~~ Rhaid cofio bod Tafliad Carreg yn drama wedi seilio ar stori wir a bod y ~~[illegible]~~ genre yn theatr mewn addysg. ~~Felly~~ ~~mae~~ Ond roedd llwyfan Tafliad Carreg yn bwa prosenium - sydd yn traddodiadol iawn i'r math o drama a set nhw. Roedd y set yn hollol symbolaidd gan defnyddio ychydig iawn o propiau i creu lleoliadau wahanol. Cafom wybod ar diwedd y perfformiad o Tafliad Carreg

'na buase'r actorion wedi licio perfformio 'bo ar llwyfan traws a rwyf yn cytuno yn llwyr gydag nhw am nad oeddwn ar brydiau yn teimlo a gweld y lleoliadau a oedd yn cael ei creu.

Roedd Llwyth yn drama a oedd yn defnyddio llawer iawn o elfeithiau technegol ~~a~~ o cerddoriaeth bop i cerddoriaeth ~~Cym~~ gan côr llest a goliadau disgo i cyfres o fresnels. Er mwyn creu lleoliadau gwahanol roedd ~~y~~ ~~golia~~ Llwyth yn defnyddio llawer o newid goliadau. Fel yn y golygfa cyntaf yn fflat "dada" roedd cyfres o fresnels ar y soffa gwyn lleolir a oedd i lawr chwith y llwyfan. Nid oedd dim gels lliw ano am ei bod yn golau naturiol mewn fflat. Pan roedd yr olygfa ar y stryd ~~roedd~~ i chwith lawr y llwyfan lle oedd y lefel uwch i symboleiddio'r palm defnyddion gels glas ar y fresnels i rhoi teimlad oeraidd a dangos golau nos. Yn y golygfeydd yn y clwbiau nos roedd pel disgo a cyfres o ffresnels a oedd yn defnyddio lliwiau gels gwahanol. Er bod hwn yn syniad da nid oedd y gels yn medded hyn am mai bob tro roedd nhw yn newid roedd sun baw i'w glywed hyd yn oed pan roedd y miwsig ymlaen. Ond nid bai ar y cwmni Sherman yn hun ond ar Theatr Clwyd.

Roedd cerddoriaeth eto yn elfen bwysig i Llwyth er mwyn creu awyrgylch. Roedd yn defnydd o cerddoriaeth mor gyson roedd ~~o~~ ~~brau~~ o'n cynnil iawn. Er mwyn creu awyrgylch roedd elfeithiau sain a oedd wedi recordio yn cael ei defnyddio fel miwsig bop i cynrychioli bod nhw yn y disgo neu yn yr olygfa lle mae nhw yn

defnyddio miwsig "Strictly Come Dancing" i cyfleu/atgoffa'r ffaith bod nhw yn gwylio'r rhaglen. Ond er mwyn creu cerddoriaeth a oedd yn symbol o'r teimladau roedd y cymeriadau yn teimlo defnyddion hwy côr llefaru i canu emynau fel "Awel y Nos" a "Calan Gôf". Roedd yr effeithiau yma wedi gwneud i'r cynulleidfa uniaethu a'r cymeriad ac yn un ~~fraget~~ golygfa lle roedd Aneurin yn torri lawr dros bod ei mam wedi marw roedd hanner y gynulleidfa mewn dagrau.

Yn wahanol iawn i Llwyth nid oedd Tafliad Carreg yn defnyddio bron i ddim effeithiau technegol. Yr unig effeithiau sain a defnyddion oedd sŵn o gwynt yn chwibanu a roedd ei recordio, metronom i symboleiddio cloc a oedd yn cael ei defnyddio yn fyw. Roedd gweddill y synnau fel ceir yn pasio, Alarwm warws y ceir a "echo's" yn yr ogof o cerrig a oedd i gyd yn cael ei creu gan y dau gymeriad yn fyw yn ystod y perfformiad. Yn yr olygfa cyntaf lle mae'n ddau ar ben bont defnyddion dau barel gyda ysgol ar ei ben i creu y bont a sefwyd y ddau cymeriad arno gan defnyddio sŵn y gwynt i creu awyrgylch a'r actorion yn creu sŵn y ceir yn mynd pasio. Rydw i'n credu, roedd o'n wahanol iawn i'r Llwyth ond yr un mor effeithiol dw i'n meddwl. Rhaid cofio bod creu synnau yn fyw yn sialens, dwi'n gwybod am fy mod wedi gwneud fy hun yn perfformiad ~~fy hun~~ a dramau dyfeisio ni i AS, felly rwyf yn gwybod y sialensau o gwneud hyn

Question number
*Rhif y Cwestiwn*

Leave Blank
*Gadewch yn wag*

a mae angen canmoliaeth mawr i'r ddau actor am ei fod wedi gwneud y synnau yn llwyddiannus trwy gydol y perfformiad. Yr unig effeithiau golau a defnyddiwyd oedd cyfres o Fresnels heb gels i ddangos golau naturiol a oedd yn gwlaen trwy gydol y perfformiad ac yn y golygfa lle daeth y cymeriadau trwy'r cynulleidfa cododd y golau fel bod yr actorion yn gweld lle oedden nhw yn mynd. Er hynny rwyf yn meddwl dylsau ychydig fwy o effeithiau golau, fel defnyddio gels glas yn yr ogof i creuhoi teimlad oraidd, wedi gwneud i'r perfformiad sefyll allan yn fwy.

Roedd y cynulleidfa ar gyfer Llwyth yn eithaf hyn ac roedden nhw yn sylweddoli am fod yna "translator" ar y llwyfan. A oedd yn tynnu sylw fi ar brydiau yn fawr iawn. A un peth arall roedd y geiriau a'r "punchline's" yn dod cyn i'r actorion cael siawns i dweud nhw felly mae angen i'r cwmni weithio ar hynny. Roedd y cynulleidfa ar gyfer Tafliad Carreg llawer mwy ifanc am fod o'n theatr mewn addysg roedd rhanfwyaf ohonyn nhw yn disgyblion ysgol. A oedd yn fy mawr i wedi bod yn gwrando a talu sylw ar bob elfen o'r perfformiad heb diflasi.

38